Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddiwylliant Ddrafft ar gyfer 2020-21

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwariant fel y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth – mewn perthynas â'r cyllidebau Diwylliant a Threftadaeth o fewn fy mhortffolio, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddir ar 16 Rhagfyr 2019. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae Diwylliant a Threftadaeth yn cyfoethogi bywydau ac yn ein cysylltu â'r byd. Mae ein gweledigaeth gyfredol ar gyfer diwylliant wedi cael ei llunio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Ffyniant i Bawb. Nodir y blaenoriaethau strategol yn Blaenoriaethau ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol a Golau yn y Gwyll, y bwriadwn eu diwygio yn 2020 er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn unol â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, a'u bod yn parhau i ymateb i heriau cyfredol. Mae diwylliant hefyd yn ganolog i'r strategaeth dwristiaeth newydd Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-25 y mae disgwyl iddi gael ei lansio yn y Flwyddyn Newydd. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cynllun 2020-21 hefyd wedi cael ei lunio gan yr wyth maes trawsbynciol â blaenoriaeth. Mae adnoddau diwylliant a threftadaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol, yn enwedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl gwell a thlodi.

Mae ein timau diwylliant (Cadw, Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd) yn cefnogi ein partneriaid cyflawni – Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru - sydd rhyngddynt yn cyrraedd cynulleidfa enfawr yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Mae Cymru'n hoff iawn o ddiwylliant. Mae miloedd o bobl wedi manteisio ar fynediad am ddim i'n hamgueddfeydd cenedlaethol. Amgueddfa Cymru yw'r darparwr addysg mwyaf y tu allan i'r ystafell ddosbarth yng Nghymru – mae dros 180,000 o fyfyrwyr ysgol yn mwynhau gweithgareddau addysg bob blwyddyn. Drwy gyfrwng Cadw, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Bob blwyddyn, mae dros 2.4 miliwn o bobl yn ymweld â'r 130 o henebion sydd dan ofal y wladwriaeth, ac

mae Cadw hefyd yn cefnogi 35,500 o berchnogion a meddianwyr sy'n gofalu am adeiladau a safleoedd hanesyddol ledled Cymru.

Mae cerddoriaeth a llenyddiaeth Cymru a'n cestyll eiconig yn llunio ein hunaniaeth ac yn adrodd hanes Cymru i'r byd. Mae llyfrgelloedd, amgueddfeydd, archifau, safleoedd treftadaeth a lleoliadau celfyddydol ledled Cymru yn galluogi miloedd o bobl i fwynhau ac ymddiddori yn ein diwylliant.

Yn ogystal â bod yn bwysig yn ei rinwedd ei hun, mae ein diwylliant yn diogelu ac yn gwella ansawdd ein bywyd. Mae diwylliant yn creu swyddi yn y meysydd treftadaeth, adeiladu ac atgyweirio adeiladau traddodiadol, a'r celfyddydau. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal y 11,500 o fusnesau yn y diwydiant twristiaeth, ac mae'r celfyddydau yng Nghymru yn cynnal ein Diwydiannau Creadigol. Mae ein diwylliant yn ganolog i frand Cymru ac i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol drwy'r Strategaeth Ryngwladol newydd sy'n datblygu.

Mae diwylliant hefyd yn dod â chymdeithas at ei gilydd. Gall gwirfoddoli mewn amgueddfa, llyfrgell, archif, menter gelfyddydol neu safle treftadaeth helpu pobl i feithrin sgiliau newydd ac i wneud ffrindiau newydd, a gall hyd yn oed roi'r hyder iddynt ymgeisio am swyddi. Mae gwirfoddolwyr digidol ledled Cymru yn helpu i warchod ein treftadaeth drwy fenter Cynefin.

2.0 Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

2.1 Crynodeb o'r Newidiadau Cyllidebol

Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn rhoi cynllun gwariant un flwyddyn ar gyfer refeniw a chyfalaf. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad manwl o ffigurau'r Gyllideb Ddrafft fesul Cam Gweithredu, a fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb o fewn pob Cam Gweithredu.

Crynhoir trosolwg o ddyraniadau Adnoddau a Chyfalaf Drafft ar gyfer Diwylliant a Threftadaeth (gan gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn Nhablau 1 a 2 isod.

Cyllideb Adnoddau

TABL 1: TROSOLWG O'R GYLLIDEB ADNODDAU (Gan gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol)

Diwylliant a Threftadaeth	2019-20 Cyllideb Atodol Gyntaf £'000	Addasiad llinell sylfaen £'000	2020-21 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000

Cefnogaeth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau	67,594	(27)	67,567	2,492	70,059
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	3,649	0	3,649	81	3,730
Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol	13,517	0	13,517	1,252	14,769
Cyfanswm yr Adnoddau	**84,760**	**(27)**	**84,733**	**3,825**	**88,558**
Pensiwn Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd	3,013	0	3,013	0	3,013
Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol	**3,013**	**0**	**3,013**	**0**	**3,013**
CYFANSWM	**87,773**	**(27)**	**87,746**	**3,825**	**91,571**

Addasiadau Llinell Sylfaen:
Ceir gostyngiad o **£0.027m** o ran cyllid anghylchol yn 2019-20 gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer Amgueddfa Lloyd George.

Dyraniadau ychwanegol:

- Cyllid ychwanegol o £1.525m gyda chynnydd o 2.2% ar gyfer pob un o'r cyrff a ariennir yn y portffolio (Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru) i gefnogi gofynion o ran cyflogau a phensiynau yn rhai o'r cyrff, ac i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer eu sectorau;

- Cyllideb ychwanegol, nad yw'n arian parod, o **£2.205m** i gwmpasu taliadau dibrisiant ychwanegol a godir yn Cadw a'r Amgueddfeydd Cenedlaethol – (Noder bod cyllideb Cadw sydd bron yn arian parod yn parhau'n wastad a bydd angen i gynnydd mewn cyflogau gael ei ariannu o'r ffrwd incwm gynyddol sy'n parhau'n gryf);

- **£0.095m** ychwanegol ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi ei ailflaenoriaethu o'r portffolio ehangach i gwmpasu costau meddiannu rhan o'i hadeilad gan y Comisiwn Brenhinol.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae'r cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £3.013m yn cefnogi darpariaeth ar gyfer unrhyw daliadau pensiwn y gall fod angen eu gwneud ar gyfer cynlluniau pensiwn Amgueddfa Cymru (cyllideb o £2.391m), a Llyfrgell Genedlaethol Cymru (cyllideb o £0.622m).

Cyllideb Gyfalaf

TABL 2: TROSOLWG O GYLLIDEB GYFALAF

Diwylliant a Threftadaeth	2019-20	2020-21	Newid	Cyllideb

	Cyllideb Atodol Gyntaf £'000	Cynlluniau yn unol â 2019-20 Cyllideb Derfynol £'000	£'000	Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000
Cefnogaeth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau	7,674	4,051	10,765	14,816
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	30	30	750	780
Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol	5,470	8,841	100	8,941
CYFANSWM	**13,174**	**12,922**	**11,615**	**24,537**

Bydd dyraniadau ychwanegol sylweddol o £11.615m yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn diwylliant a threftadaeth, a chrynhoir hynny fel a ganlyn:

TABL 4: BUDDSODDIADAU CYFALAF

Sefydliad	£'000	Prosiect
Amgueddfa Cymru	2,500	Cynnal cyfalaf
	350	System rheoli cydberthynas â chwsmeriaid
Llyfrgell Genedlaethol	2,115	Cynnal cyfalaf
	400	System TG a gweinyddion
Cymru Greadigol	5,000	Cynhyrchu ffilmiau a buddsoddiadau eraill yn y diwydiannau creadigol
Cyngor Celfyddydau Cymru	400	Buddsoddi mewn prosiectau celfyddydol (gan gynnwys Prosiect Coffa Robert Owen)
Cyngor Llyfrau Cymru	750	System gweithredu TG a dosbarthu integredig newydd
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	100	Cyllid cynnal a chadw ac effeithlonrwydd ynni
CYFANSWM	**11,615**	

2.2 Alldroeon terfynol ar gyfer 2018-19

Yn fras, roedd ffigurau alldro terfynol 2018-19 yn unol â'r gyllideb. Cafodd rhywfaint o danwariant ym Mhrif Grŵp Gwariant Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg, sef tua £0.7m, ei ailddyrannu i gyrff a noddir er mwyn helpu i ariannu cost setliadau cyflogau.

2.3 Ffigurau alldro rhagolygol ar gyfer 2019-20

Mae ffigurau alldro rhagolygol ar gyfer 2019-20 yn unol â'r cyllidebau.

3.0 Ymateb i'r Wybodaeth Benodol y Gofynnodd y Pwyllgor amdani

3.1 Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolio y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth, a'u canlyniadau cysylltiedig, eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.

Nodir blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob Sefydliad Partner yn eu Llythyrau Cylch Gwaith, a ddefnyddir ganddynt fel sail ar gyfer eu Cynlluniau Gweithredol a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae fy swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn mewn cyfarfodydd Monitro Chwarterol a chyfarfodydd eraill fel y bo angen.

3.2 Manylion am y polisïau neu'r rhaglenni penodol yn y Prif Grwpiau Gwariant perthnasol (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) y bwriedir iddynt fod yn ataliol, a sut y caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

Tlodi: Rhaglen Cyfuno

Mae'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn chwarae rôl wrth atal tlodi. Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (megis gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) wella sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyheadau, yn enwedig mewn ardaloedd sydd o dan anfantais economaidd. Mae'r argymhellion yn adroddiad Diwylliant a Thlodi'r Farwnes Andrews wedi cael eu rhoi ar waith drwy ein cynllun Cyfuno: Creu Cyfleoedd trwy Ddiwylliant. Mae'r rhaglen arloesol hon yn dwyn darparwyr cymdeithasol a sefydliadau diwylliannol ynghyd i greu cyfleoedd sy'n targedu anghenion grwpiau penodol. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cyhoeddi adroddiad sy'n cynnig wyth argymhelliad sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Cyfuno. Caiff y rhain eu hystyried ar y cyd â gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i lunio'r rhaglen yn y dyfodol.

Rydym wrthi'n adolygu'r broses o ddyrannu cyllid ar gyfer Cyfuno, o gofio adroddiad diweddar y Pwyllgor ac adborth arall ar y rhaglen. Ar hyn o bryd, byddwn yn disgwyl gwario o leiaf £300k yn 2020-21.

Iechyd Meddwl

Dros y genhedlaeth ddiwethaf gwelwyd newid o fodel meddygol o iechyd i un sy'n cydnabod rôl a phwysigrwydd cymunedau ym maes iechyd. Mae'r portffolio yn cefnogi cymunedau iach, a lleoedd iach drwy gyfleoedd i wirfoddoli ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, a hefyd drwy gefnogi cyfleusterau cymunedol lleol megis llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth.

Mae tystiolaeth dda bellach i gefnogi'r effeithiau cadarnhaol y gall cymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant eu cael ar iechyd meddwl. Nododd adolygiadau llenyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru Arts and Culture in Criminal Justice and Wellbeing ganlyniadau corfforol a seicolegol cadarnhaol i gleifion, o ganlyniad i ymyriadau cerddorol mewn pob math o ysbyty.

Nododd ein hastudiaeth ddiweddar ni ein hunain ar y celfyddydau ac iechyd yng Nghymru fwy na 200 o brosiectau ledled y wlad sy'n llwyddo i atal salwch, yn helpu i gynnal iechyd meddwl ac iechyd corfforol da ac yn helpu pobl i wella.

Dangosodd gwerthusiad 2018 o gynllun Bancio Amser (y mae Cadw'n cymryd rhan ynddo) fod ansawdd bywyd yn gyffredinol wedi gwella i 83% o'r bobl a oedd yn cymryd rhan a bod 52% yn teimlo'n llai ynysig ac unig.

Tlodi, Sgiliau a Chyflogadwyedd - Cymru Greadigol

Ceir tystiolaeth mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r ffordd orau allan o dlodi a'r diogelwch mwyaf rhag tlodi i'r rhai sydd mewn perygl. Drwy fuddsoddi yn Cymru Greadigol, rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a'u teuluoedd gyda mentrau a buddsoddiad wedi ei dargedu ledled Cymru. Bydd hyn yn gwella cadernid yr economi. Asesir pob prosiect gan baneli annibynnol. Mesurir gwerth am arian yn drwyadl drwy ystod o fesurau, gan gynnwys:

- Gwariant Cymru (a ddefnyddir yn bennaf mewn prosiectau cynhyrchu ar gyfer ffilm a theledu).
- Allbynnau creu swyddi (a ddefnyddir yn bennaf mewn prosiectau digidol a thechnolegol).
- Allbynnau sgiliau – mae gwelliannau amrywiol mewn sgiliau yn orfodol mewn prosiectau cynhyrchu.
- Caiff DPAau pwrpasol gan gynnwys buddsoddiad eu hysgogi, cynhyrchion a gwasanaethau newydd eu cyflwyno, mentrau eu cynorthwyo, ac eiddo deallusol eu creu a'u cadw yng Nghymru.

3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth sydd â'r potensial i gael effaith ar y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth ym mlwyddyn ariannol 2020-21.

Mae un maes yn y portffolio lle mae deddfwriaeth newydd yn gymwys, sef rhoi **Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016** ar waith. Amlinellir gwybodaeth am ddyrannu ym mharagraff 4.1 isod.

3.4 Goblygiadau penderfyniad y DU i ymadael â'r UE ar bortffolio y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli unrhyw effaith a ragwelir.

Ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau Brexit ar feysydd yn ei gylch gwaith yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2018. Nododd y papur ar gyfer y sesiwn honno ganlyniadau posibl Brexit gan gynnwys:

- **Colli cyllid ar gyfer prosiectau mawr.**
- **Colli cyllid ar gyfer prosiectau cydweithredol** a fydd yn effeithio ar gyrff sector, prifysgolion ac eraill, ac ar gyfer **datblygu sgiliau**, yn enwedig yn y diwydiannau creadigol.
- **Effaith ar y marchnadoedd sector** – mae artistiaid Cymru ac eraill yn dibynnu ar y gallu i arddangos eu harlwy yn rhyngwladol, ac mae 45% o'r diwydiannau creadigol yn allforio i'r UE.
- **Effaith reoleiddiol** - mae'r effaith fwyaf yn debygol o fod ar gofnodion digidol, eiddo deallusol a hawlfraint. Nid yw'r UE yn rheoleiddio'r amgylchedd hanesyddol ac, er bod rhai goblygiadau i eiddo diwylliannol, nid ydym yn wynebu heriau cyfreithiol neu reoleiddiol i'r un graddau â'r amgylchedd naturiol er enghraifft.
- **Effaith bosibl ar anwadalrwydd ariannol** (megis gwerth y bunt) – mae'n amhosibl ei feintioli ond mae costau cynyddol posibl, er enghraifft, costau papur i gyhoeddwyr, eisoes wedi cynyddu 25%.

Mae'r papur hefyd yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd er mwyn helpu i leddfu rhai o'r anawsterau hyn megis: **ymgysylltu â sefydliadau** yn y sector er mwyn deall effaith Brexit, casglu gwybodaeth am eu profiadau a chydweithio i baratoi ar gyfer goblygiadau ymarferol ymadael â'r UE; **gweithio gyda'r byd amaeth a Llywodraeth Cymru** er mwyn sicrhau yr ystyrir diwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol yn y trefniadau newydd; **datblygu rhwydweithiau newydd** a chydberthnasau yn Ewrop a ledled y byd i hyrwyddo diwylliant yng Nghymru, gan weithio gyda'r Cyngor Prydeinig, fforwm Penaethiaid Treftadaeth Ewrop ac eraill; Cysylltu ag **Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU** mewn perthynas â rheoliadau eiddo diwylliannol ac offerynnau statudol newydd; a, gweithio ar y cyd yn Llywodraeth Cymru a gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i **godi proffil rhyngwladol Cymru.** Bydd y diwydiannau creadigol yn un o golofnau'r strategaeth ryngwladol newydd a bydd y cyllid newydd o £5m yn helpu i feithrin cadernid yn yr economi.

4.0 Meysydd penodol

4.1 Y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol a Gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol.

Nod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yw:

- Rhoi diogelwch mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;
- Gwella rheolaeth gynaliadwy'r amgylchedd hanesyddol;
- Cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol.

Crynhoir y costau ar gyfer y Ddeddf o gymharu â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn y tabl canlynol:

TABL 5: COSTAU O GYMHARU Â'R RIA

Gwarchod, diogelu, cynnal a hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol Cam Gweithredu									
2016-17 Costau £'000		**2017-18 Costau £'000**		**2018-19 Costau £'000**		**2019-20 Costau £'000**		**2020-21 Costau £'000**	
RIA	**Gwirioneddol**	**RIA**	**Gwirioneddol**	**RIA**	**Gwirioneddol**	**RIA**	**Cyllideb**	**RIA**	**Cyllideb**
230	**221**	**220**	**181**	**197**	**156**	**197**	**200**	**197**	**200**

Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r Ddeddf ar waith yn 2016 a 2017. Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i weithredu'r gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol a chytundebau partneriaeth treftadaeth ac, yn amodol ar wneud yr offerynnau statudol gofynnol, rhagwelir y caiff y darpariaethau hyn eu rhoi ar waith yn 2020.

4.2 Cadw

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Cadw, gan gynnwys targedau cynhyrchu refeniw, a ffigurau diweddar o ran cynhyrchu incwm blynyddol

Y ffigur incwm terfynol ar gyfer 2018-19 oedd £7.7m. Mae ffigurau incwm wedi cynyddu'n sylweddol iawn ers 2013-14 pan oedd lefel yr incwm yn £4.8m. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i nifer o fentrau i ddenu mwy o ymwelwyr â safleoedd, gan gynnwys buddsoddi yn y cyfleusterau, ynghyd â chynnydd mewn prisiau.

Y gyllideb ar gyfer incwm yn 2019-20 oedd £8.1m. Mae rhagolygon cyfredol yn awgrymu yr eir y tu hwnt i'r ffigur hwn, ac amcangyfrifir ar hyn o bryd mai'r ffigur diwedd blwyddyn gwirioneddol yw tua £8.2m. Mae Cadw wedi ailstrwythuro'r taliadau a godir ganddi ar gyfer elfennau amrywiol ei gweithrediadau masnachol, a ddylai arwain at fuddiannau pellach yn y

dyfodol. Mae cynnydd cymedrol arall mewn prisiau mynediad a thâl aelodaeth wedi ei gynllunio ar gyfer henebion y flwyddyn nesaf. Mae prisiau mynediad Cadw, hyd yn oed ar safleoedd treftadaeth byd allweddol Conwy a Chaernarfon (£9.90 fesul oedolyn ar hyn o bryd), yn parhau i fod yn sylweddol is nag atyniadau mewn gwledydd eraill fel Castell Caeredin sy'n £17.50 a Chastell Dofr sy'n £20.90.

Dyrannwyd cyfalaf ychwanegol i Cadw o £10.1m wedi ei broffilio dros 2018-19 i 2021-22, i'w fuddsoddi mewn safleoedd i ddatblygu profiad yr ymwelydd a chynyddu lefelau incwm yn y dyfodol. Mae cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu cestyll Caerffili a Chaernarfon; ynghyd â gwaith dehongli digidol a datblygu cyfleusterau manwerthu ac arlwyo ar nifer o safleoedd.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru. Mae'n gofalu am 130 o henebion ledled Cymru ac yn darparu mynediad i'r cyhoedd i'r henebion hyn. O blith y rhain, mae 29 yn safleoedd â staff ac mae'r gweddill yn safleoedd mynediad agored am ddim. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion hefyd yn flaenoriaeth bwysig o hyd.

Dyraniadau tuag at gyllid i berchnogion asedau hanesyddol

Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, a pherchnogion preifat sy'n berchen ar y mwyafrif ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny yn gofalu am eu heiddo mewn ffordd gydwybodol, sydd yn waddol gwerthfawr i genedlaethau heddiw ac yfory.

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod helaeth o ganllawiau, a gellir lawrlwytho cyfeiriadau at y cyllid grant sydd ar gael am ddim o wefan Cadw. Mae fy swyddogion yn Cadw bob amser yn hapus i roi cyngor ar ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol, ond cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymholiadau penodol sy'n ymwneud â rheoli adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, os bydd gwaith arfaethedig neu faterion eraill yn codi cwestiynau anodd, bydd fy swyddogion yn fodlon rhoi cyngor mewn trafodaethau cyn gwneud cais, yn cynnwys pob parti.

Nid yw rhestru adeilad na chofrestru heneb yn rhoi unrhyw hawl i gymorth grant. Fel gydag unrhyw adeilad, mater i'r perchennog yw atebolrwydd cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant a ategir gan amcanion craidd ein strategaeth genedlaethol - *Ffyniant i Bawb.* Gwneir dyfarniadau gwerth am arian wrth gyflwyno amcangyfrifon wedi eu costio gan yr ymgeisydd, a asesir gan Arolygwyr Cadw.

Mae gan Cadw y cynlluniau grant canlynol:

- **Grantiau Adeiladau Rhestredig**

Ar hyn o bryd mae Cadw yn blaenoriaethu grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer asedau cymunedol hanesyddol rhestredig megis neuaddau pentref a chymuned, institiwtau, llyfrgelloedd, a llefydd addoli hanesyddol sydd ar agor at ddefnydd ehangach y gymuned. Bydd adeiladau cymwys fel arfer yn cynnwys asedau cymunedol rhestredig sydd mewn perygl, cynlluniau sy'n cynnig mynediad cyhoeddus gwell a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chael hyfforddiant, a chynlluniau sy'n sicrhau buddiannau i gymunedau neu sy'n ysgogi cyfleoedd adfywio.

Ni fydd eiddo preswyl dan berchenogaeth breifat fel arfer yn gymwys, gan eu bod yn tueddu i beidio â darparu'r buddiannau ehangaf posibl fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol.

- **Grantiau Henebion**

Gall henebion amrywio o siambrau claddu Neolithig i adeiladau'r chwyldro diwydiannol. Mae llawer yn fregus a chydnabyddwn y gall gwaith atgyweirio fod yn gostus neu nad yw efallai bob amser er budd ariannol perchennog yr heneb.

Rydym yn ystyried ceisiadau grant am waith cadwraeth, cynnal a chadw a rheoli henebion. Hefyd, ystyrir mynediad cyhoeddus a dehongli henebion. Bydd yr union waith yn amrywio yn dibynnu ar b'un ai gweddillion castell garreg neu heneb cae yw'r heneb, megis gwrthglawdd cynhanesyddol.

Asesir ceisiadau am grant yn erbyn meini prawf, gan gynnwys pa mor angenrheidiol yw'r gwaith ac a yw ar frys, priodoldeb y cynigion, maint yr effaith ddisgwyliedig, gwerth yr arian cyfatebol a lefel y budd cymunedol. Mae buddiannau cymunedol ehangach y gall prosiectau cadwraeth eu cyflawni yn cynnwys darparu gwasanaeth dehongli, cynnal diwrnodau agored neu gymryd rhan mewn digwyddiadau drysau agored, darparu cyfleoedd hyfforddiant, a chynnwys gwirfoddolwyr. Byddem hefyd yn disgwyl i fynediad cyhoeddus rhesymol i'r safle gael ei ddarparu.

Yn 2018-19, gwnaeth Cadw glustnodi £0.832m tuag at gynigion grant i berchnogion asedau hanesyddol, yn cynnwys £0.221m i henebion a £0.611m i adeiladau rhestredig (gan gynnwys cofebau rhyfel). Mae natur y gwaith o atgyweirio ac adfer adeiladwaith yr asedau hanesyddol yn golygu y gall y broses o neilltuo taliadau grant ddigwydd dros fwy nag un flwyddyn ariannol ar gyfer unrhyw un grant. Yn 2018-19, y gwariant cyfalaf ar gyfer taliadau grant oedd £0.615m. Y gwariant rhagolygol ar gyfer 2019-20 yw £0.7m.

4.3 Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw dargedau cynhyrchu refeniw

Mae fy swyddogion yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol Amgueddfeydd Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn agos ac yn rhoi adroddiadau rheolaidd i mi eu hystyried. Mae'r ddau gorff yn cael cyllid Cymorth Grant blynyddol ac yn cael cryn effaith wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn Ffyniant i Bawb.

Yn 2020-21 cyllid Amgueddfeydd Cymru yw £20.618 a chyllid Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw £10.835m. Gwnaed dyraniadau refeniw ychwanegol o £0.487m i Amgueddfeydd Cymru a £0.214 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn helpu i dalu am y cynnydd mewn costau cyflogau a phensiynau. Hefyd, mae cyllideb sylfaenol Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cynyddu £0.095m i adlewyrchu costau'r Comisiwn Brenhinol wrth feddiannu swyddfeydd a lle storio ar safle Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

Ymrwymir o hyd i fynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru. Mae hwn yn bolisi pwysig o ran chwalu rhwystrau i gyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol i bobl o gefndiroedd dan anfantais a/neu'r rheini sydd ar incwm isel. Mae hefyd yn annog ymweliadau mynych a defnydd cymunedol o safleoedd a chyfleusterau Amgueddfa Cymru. Mae Amgueddfa Cymru, er nad yw'n codi tâl mynediad, wedi bod yn arbennig o effeithiol am godi incwm - gan gynhyrchu dros £5m mewn refeniw ychwanegol y llynedd (o fanwerthu, arlwyo, digwyddiadau, gweithgareddau ar y safle, llogi masnachol ac arddangosfeydd y telir amdanynt ac ati). O gofio'r datblygiadau diweddar yn Sain Ffagan, y dyfarnwyd gwobr glodwiw Amgueddfa'r Flwyddyn iddi gan Art Fund, rydym yn disgwyl i hyn barhau a thyfu.

Mae cyllid cyfalaf ar gyfer y ddau gorff yn ymwneud â heriau gweithredu mewn adeiladau hanesyddol, yr angen i gadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel, a'r gofyniad i ddarparu mynediad cyhoeddus parhaol a diogel wrth i'r gwaith cynnal a chadw fynd rhagddo. Mae'n rhaid i Amgueddfa Cymru reoli'r heriau hyn mewn saith safle gwahanol. Nid oes a wnelo cyllid cyfalaf cynnal a chadw â datrys problemau sydd eisoes yn bodoli – er bod ôl-groniad o waith cyfalaf cynnal a chadw ar hyn o bryd. Mae a wnelo hefyd â chefnogi ffrydiau gwaith a fydd yn gwella profiad yr ymwelydd ac yn cynyddu gallu cyrff i gynhyrchu refeniw ychwanegol o'u mannau cyhoeddus ar eu newydd wedd. Fel y crynhoir yn nhabl 4, dyrennir £2.850m o gyllid cyfalaf ychwanegol i Amgueddfeydd Cymru a £2.515m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

4.3 Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol.

Yn 2020, byddaf yn rhoi datganiad ar fy mlaenoriaethau ar gyfer diwylliant, gan gynnwys y rhai ar gyfer amgueddfeydd lleol, archifau a llyfrgelloedd. Bydd cyllid rhaglen yn cefnogi'r sector lleol, er mwyn gallu cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y datganiad. Mae gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd a ddarperir yn lleol wedi wynebu cyfnodau heriol. Er gwaethaf hynny, maent wedi parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i boblogaeth amrywiol Cymru.

Amgueddfeydd

Mae'r gefnogaeth yn parhau a chaiff ei chynnig i amgueddfeydd er mwyn cyrraedd a chynnal Safon Achredu Amgueddfeydd y DU. Mae hwn yn faes allweddol o waith, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwasanaethau o'r ansawdd uchaf a bod treftadaeth gludadwy'r wlad yn cael ei diogelu'n briodol. Nododd yr arolwg diweddaraf ostyngiad o 42% i 37% o'r boblogaeth sy'n ymweld â'n hamgueddfeydd. Mae amgueddfeydd yn wasanaethau dewisol ac, fel y cyfryw, mae'r gwasanaethau hynny sydd o fewn awdurdodau lleol wedi wynebu blynyddoedd heriol. Mae hyn wedi ymestyn i'n hamgueddfeydd annibynnol, y mae llawer ohonynt yn cael help a chefnogaeth, yn draddodiadol, gan eu hawdurdodau lleol.

Archifau

Mae gwasanaethau archifau yn rhan allweddol o'n tirwedd ddiwylliannol, gan ddarparu cofnod o'n gwlad a ffynhonnell o dystiolaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi Safon Achredu Amgueddfeydd y DU yng Nghymru a sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni gofynion y cam cynyddol tuag at gadw cofnodion digidol.

Llyfrgelloedd

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu ystod helaeth o weithgareddau i gymunedau, teuluoedd ac unigolion, ac mae ganddynt 1.4 miliwn o aelodau llyfrgell, sy'n golygu eu bod yn cyrraedd bron 50% o'r boblogaeth. Canfu'r bwletin diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 34% o'r rhai a arolygwyd wedi defnyddio llyfrgell yn y 12 mis diwethaf. Mae llyfrgelloedd yn ymgysylltu â phartneriaid i gefnogi cynhwysiant digidol, sgiliau, darllen a dysgu yn y blynyddoedd cynnar, iechyd a lles, a chynhwysiant cymdeithasol - yn enwedig i bobl hŷn; yn ogystal â darparu mynediad i ddiwylliant, gwybodaeth a thechnoleg.

Bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon gan awdurdodau lleol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

Buddsoddiad Cyfalaf

Mae angen buddsoddiad cyfalaf ar y sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol. Mae ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid ar agor i'r sector lleol ac yn darparu dros £1.4m o gyllid cyfalaf bob blwyddyn. Mae 13 o amgueddfeydd a deg llyfrgell wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer cronfa 2020-21, gan gyflwyno cynigion gwerth £3.58m.

Rwyf am sicrhau bod y sector yn cael ei gefnogi yn ei waith ac i annog datblygu dull mwy strategol o ymdrin â'r gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol ledled Cymru. Mae angen i ni annog gwaith partneriaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru. Bydd fy natganiad ar flaenoriaethau diwylliannol yn diffinio sut y gweithredir ar hyn ac atodi dyraniadau cyllidebol i feysydd y rhaglen.

4.4 Y Celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru

Mae cyllid cymorth grant o £32.042m yn 2020-21 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £0.696m (2.2%), er mwyn helpu i dalu am y cynnydd yng nghostau cyflogau a phensiynau ar draws y sector. Mae hefyd yn cynnwys swm o £0.119m nad yw'n arian parod, ar gyfer dibrisiant. Mae'r cyllid yn cefnogi gwaith rhyngwladol ac yn helpu sefydliadau celfyddydol i baratoi ar gyfer Brexit. Mae'r cynnydd mewn darpariaeth cyfalaf i £0.755m yn cynnwys £0.4m i ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau.

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â chyllid i hyrwyddo mynediad at y celfyddydau

Mae lefelau cynyddol o fynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y llythyr Cylch gwaith. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant fel arian craidd ar gyfer 67 o sefydliadau celfyddydol strategol allweddol ac rydym yn disgwyl iddo barhau i flaenoriaethu mynediad a gwaith ymgysylltu. Mae Cynllun Corfforaethol 2018-23: Er Budd Pawb, sy'n gynllun pum mlynedd, yn pwysleisio'r ymrwymiad i sicrhau ffocws cynyddol ar fynediad, cydraddoldebau ac amrywiaeth ac mae'n nodi 'Hybu Cydraddoldebau' fel sail ymrwymiad clir i gyrraedd pob cymuned yng Nghymru mewn ffordd ehangach a dyfnach. Mae ganddo Grŵp Monitro Cydraddoldebau dynodedig wedi ei gadeirio gan Aelod o'i Gyngor, ac mae ei holl strategaethau a rhaglenni yn cael eu profi'n helaeth am yr effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r sefydliad yn cynnal cam ymgynghori cyntaf ei Adolygiad Buddsoddi ar gyfer 2020. Defnyddir y broses hon i ddethol grŵp o sefydliadau a fydd yn

creu Portffolio Celfyddydau Cymru yn y dyfodol, yn dilyn adolygiadau tebyg yn 2010 a 2015. Bydd y cam ymgynghori cyntaf yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2020. Ffocws yr Adolygiad Buddsoddi yw galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt, ac i weithgarwch a ariennir gynyddu amrywiaeth y cyfranogwyr, drwy gyrraedd mwy o bobl yn y gymdeithas Gymreig a denu amrywiaeth o ymwelwyr.

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â chyllid sydd â'r nod o ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i fynd i'r afael â thlodi

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol allweddol yn rhaglen Cyfuno, yn cefnogi sefydliadau i gyfranogi drwy roi cyngor ymarferol a threfnu cyflwyniadau rhwng partneriaid Cyfuno ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol yn eu hardaloedd hwy. Lle y bo'n berthnasol, mae'n rhoi gwybod am gyfleoedd ac yn dosbarthu gwybodaeth drwy ei adnodd e-newyddion, ei wefan ac i gleientiaid Portffolio Celfyddydau Cymru.

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â chyllid sydd â'r nod o annog/galluogi sefydliadau celfyddydol i gynhyrchu mwy o'u hincwm eu hunain

Mae Rhaglen Cydnerthedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod sefydliadau diwylliannol yn canolbwyntio mwy ar fusnes, yn broffesiynol o ran eu dulliau rheoli a gweithredu, ac yn gallu datblygu a rheoli eu gweithgareddau er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor a sicrwydd ariannol mewn hinsawdd ariannol heriol. Mae'r gronfa hon o £2m wedi cefnogi 57 o 67 o sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru i rannu arfer gorau a modelau cyflawni a threialu dulliau gweithredu gwahanol o gynaliadwyedd hirdymor. Bu hyn yn fuddiol tu hwnt i'r 85% o bortffolio refeniw craidd Cyngor Celfyddydau Cymru sydd wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen.

4.5 Y cyfryngau a darlledu

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu

Mae cyllid o £3.730m yn 2020-21 yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £0.081m (2.2%) i ddarparu cyllid ychwanegol i'r sector barhau â mentrau fel swyddi golygyddol a marchnata mewn nifer o gwmnïau cyhoeddi. Lleolir y mwyafrif o'r cwmnïau cyhoeddi mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol dan anfantais yn y gogledd a'r gorllewin, ac felly gwnânt gyfraniad cadarnhaol i economi'r ardaloedd hynny ac i'r iaith Gymraeg. Mae gan Gyngor Darlledu Cymru (BCW) rôl allweddol i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd y Cyngor hefyd yn cael cyllid cyfalaf ychwanegol o £0.75m (cyfanswm y prosiect yw £1m) i roi system feddalwedd newydd ar waith yn ei ganolfan ddosbarthu. Ni ellir osgoi'r gwaith uwchraddio am fod gan yr hen system bresennol nifer o gyfyngiadau hysbys, ac mae'r cyflenwr cyfredol yn dod â'r system i ben yn 2022. Bydd hyn yn hwb sylweddol i'r Cyngor ac i'r diwydiant cyhoeddi cyfan yng Nghymru.

Mae'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn cyfrannu at y mwyafrif o'n nodau Llesiant, yn enwedig *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*, *Cymru ffyniannus*' a *Cymru o Gymunedau Cydlynol*. Mae gan y Cyngor rôl hollbwysig i'w chwarae wrth gyflawni agenda strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys hyrwyddo'r Gymraeg a sgiliau llenyddol. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cyfrannu at gydlyniant cymdeithasol, llesiant a threchu tlodi plant, yn ogystal â chefnogi buddiannau economaidd yn y diwydiannau creadigol.

Mentrau Cymraeg allweddol yw Golwg 360, y gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol yn Gymraeg, a chefnogaeth i gyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes Cymraeg fel *Y Cymro, Golwg* a *Barn.* Mae cyllid y Cyngor hefyd yn cynnal y cylchgrawn Saesneg *The Welsh Agenda* a'r cyhoeddiadau ar-lein *Nation.Cymru* a *Click on Wales* sy'n cwmpasu sawl maes gan gynnwys materion cyfoes/diwylliant. Mae ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran darlledu hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer adnoddau staff i ategu'r blaenoriaethau.

Cronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol

Lansiwyd y Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol (Cronfa) ar 1 Ebrill 2019 i ddarparu cyllid grant refeniw i gyhoeddiadau cymunedol annibynnol, a elwir hefyd yn gyhoeddiadau hyperleol, sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i gefnogi cynaliadwyedd, datblygiad a thwf eu cyhoeddiad. Darparodd y Cytundeb Cyllideb Dwy Flynedd â Phlaid Cymru £0.1m yn 2019-20 a chaiff ei reoli ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a Thrafnidiaeth. Mae'r Gronfa wedi ei chlustnodi'n llwyr.

Caiff pob cais ei werthuso'n llawn gan banel o Lywodraeth Cymru i asesu'r meini prawf cymhwysedd. Mae pob ymgeisydd cymwys yn cydsynio i rannu ei gais â'r Ganolfan ar gyfer Newyddiaduraeth Gymunedol (C4CJ). Mae'r Ganolfan yn gweithredu mewn rhinwedd gynghorol fel arbenigwr ym maes newyddiaduraeth hyperleol. Fodd bynnag, nid yw'n rhan o'r broses gymeradwyo.

Mae canlyniadau disgwyliedig y cyllid grant yn cynnwys:

- Mwy o ddarllenwyr ac ehangu cyrhaeddiad cyhoeddiadau.
- Mwy o hysbysebu i gynyddu ffrydiau refeniw.

- Gwelliannau technegol i wefannau, llwyfannau gwell a datblygu gwasanaethau ar-lein newydd.
- Datblygu staff drwy hyfforddiant a thrwy fynychu cynadleddau'r diwydiant.
- Cynyddu nifer y staff a chynhyrchiant gwell drwy gyflogi mwy o staff.
- Twf busnes a gwell proffesiynoldeb drwy symud i swyddfeydd newydd.

4.6 Cymru Greadigol

Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas ag unrhyw gyllid ar gyfer datblygu Cymru Greadigol

I gydnabod y diwydiannau creadigol fel un o'r rhannau o economi Cymru sy'n tyfu gyflymaf ers bron i ddegawd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu Cymru Greadigol fel asiantaeth fewnol, i gefnogi twf y sector yng Nghymru ymhellach.

Bydd Cymru Greadigol yn ymateb i dwf y diwydiant a thirwedd newidiol y sector i gynnig gwasanaeth syml, deinamig ac arloesol wedi ei ategu gan nifer bach o flaenoriaethau allweddol, sy'n cynnwys:

- Datblygu'r sylfaen sgiliau a thalent yng Nghymru.
- Gwella safonau a gweithio mewn partneriaeth.
- Symleiddio'r modelau cyllid i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i anghenion y sector.
- Ehangu'r gefnogaeth i is-sectorau ehangach megis cyhoeddi, digidol, a cherddorol.
- Marchnata a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r byd.

Dyrannwyd £5m o gyfalaf ychwanegol i gyflawni blaenoriaethau strategol Cymru Greadigol. Caiff dyraniad cyllideb refeniw o £1.708m hefyd ei flaenoriaethu i gyflawni uchelgeisiau strategol newydd Cymru Greadigol. Bydd y ddau yn destun diwydrwydd dyladwy a phroses gyllidebol arferol.

4.7 Cymorth ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu

Yr adolygiad diweddaraf a'r ffigurau refeniw rhagamcanol a'r cyfraddau meddiannaeth ar gyfer Pinewood Studios ers dechrau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.

Ym mis Tachwedd 2017, lluniodd Llywodraeth Cymru a Pinewood Gytundeb Gwasanaethau Rheoli ar gyfer gweithredu cyfleusterau stiwdio Gwynllŵg. O dan delerau'r cytundeb, mae Pinewood yn rheoli Stiwdio Pinewood ar ran Llywodraeth Cymru ac yn gweithredu fel asiantiaid.

Mae'r costau rhedeg ar gyfer y stiwdio yn cyfateb i tua £1.185m y flwyddyn. Yn ystod rhan gynharach cyfnod y cytundeb, mae'r ffigurau rhent wedi bod tua £0.46m y flwyddyn.

Ym mis Mawrth 2019, lluniodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cam gyda Stiwdio Blaidd Cymru i rentu'r lle gwag cyfan yn y stiwdio am ddeuddeg mis, gyda'r opsiwn o lunio cytundeb am ddwy flynedd arall. Mae Stiwdio Blaidd Cymru bellach yn meddiannu 80% o'r stiwdio, sy'n cynnwys y brif stiwdio, a thenantiaid yr Hwb Cyfryngau yn meddiannu'r 20% arall - y swyddfeydd bach a osodir ar rent i gyflenwi cwmnïau cadwyn yn y sector. O dan y cytundeb hwn, telir costau rhedeg y stiwdio a gwneir elw bach.

Mae Pinewood bellach wedi cyhoeddi y bydd y cytundeb presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau ar hyn o bryd i reoli'r stiwdio yn y dyfodol ar ôl y dyddiad hwn.

Mewn ymateb i Argymhelliad 6 yn adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gydberthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i roi diweddariad ar y perfformiad ariannol diweddaraf a'r amcanestyniadau incwm. Rhennir hyn hefyd â'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad, yr elw o fuddsoddi a Gwariant Cymru (wedi ei ddadansoddi fesul prosiect)

Buddsoddiadau cyffredinol y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yw £15.106m, a'r swm a adenillwyd hyd yma yw £5.054m. Mae'r buddsoddiad wedi cynhyrchu cyfanswm gwariant Cymru hyd yma o £25.112m. Mae derbyniadau ar y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn parhau i gael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru. Yn **Atodiad B** ceir crynodeb o'r buddsoddiadau benthyg unigol, y cyllid a adenillwyd hyd at fis Medi 2019, a balans pob prosiect a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cronfa Sgrin Cymru gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiad a Gwariant Cymru (wedi ei ddadansoddi fesul prosiect)

Cyfanswm gwerth y cynigion ym mis Medi 2019 yw £27.959m gyda gwariant a ragwelir o £333.748m.

Ceir rhestr o'r prosiectau yn **Atodiad C.**

Y ffigurau diweddaraf o ran benthyciad Llywodraeth Cymru i Stiwdio Blaidd Cymru gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a gwariant Cymru (wedi ei feincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru)

Mae Stiwdio Blaidd Cymru wedi cymeradwyo benthyciad o £9m ac mae £4.5m wedi ei dalu hyd yma. Nid oes unrhyw ad-daliadau yn ddyledus. Y gwariant a ragwelir ar gyfer Cymru yw £133m.

Atodiad A

Cyllideb Ddrafft 2020-21 – Diwylliant a Threftadaeth – Dadansoddiad Manwl

Cam Gweithredu	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2019-20 Cyllideb Atodol Gyntaf £'000	Addasiad llinell sylfaen £'000	2020-21 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000
Cefnogaeth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau	Cyngor Celfyddydau Cymru	31,346	-	31,346	696	32,042
	Amgueddfa Cymru	21,618	-	21,618	1,487	23,105
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	10,835	-	10,835	309	11,144
	Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	2,087	(27)	2,060	-	2,060
	Creadigol	1,708	-	1,708	-	1,708
Cyfanswm		**67,594**	**(27)**	**67,567**	**2,492**	**70,059**
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	Cyngor Llyfrau Cymru	3,649	-	3,649	81	3,730
Cyfanswm		**3,649**	**-**	**3,649**	**81**	**3,730**
Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol	Cadw	11,206	-	11,206	1,205	12,411
	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	1,730	-	1,730	34	1,764
	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	581	-	581	13	594
Cyfanswm		**13,517**	**-**	**13,517**	**1,252**	**14,769**
Cyfanswm yr Adnoddau		**84,760**	**(27)**	**84,733**	**3,825**	**88,558**
Pensiwn Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd	Amgueddfa Cymru	2,391	-	2,391	-	2,391
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	622	-	622	-	622
Cyfanswm y Gwariant a Reolir yn Flynyddol		**3,013**	**-**	**3,013**	**-**	**3,013**
CYFANSWM YR ADNODDAU		**87,773**	**(27)**	**87,746**	**3,825**	**91,571**

Cam Gweithredu	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2019-20 Cyllideb Atodol Cyllideb £'000	2020-21 Cynlluniau yn unol â 2019-20 Cyllideb Derfynol £'000	Newid £'000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000
Cefnogaeth i'r Diwylliant a'r Celfyddydau	Cyngor Celfyddydau Cymru	355	355	400	755
	Amgueddfa Cymru	1,669	697	2,850	3,547
	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	2,705	580	2,515	3,095
	Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	2,430	1,430	-	1,430
	Creadigol	515	989	5,000	5,989
Cyfanswm		**7,674**	**4,051**	**10,765**	**14,816**
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	Cyngor Llyfrau Cymru	30	30	750	780
Cyfanswm		**30**	**30**	**750**	**780**
Cefnogaeth i'r Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol	Cadw	5,360	8,731	-	8,731
	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	15	15	-	15
	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	95	95	100	195
Cyfanswm		**5,470**	**8,841**	**100**	**8,941**
CYFANSWM CYFALAF		**13,174**	**12,922**	**11,615**	**24,537**

Atodiad B

PROSIECTAU A ARIENNIR GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU

Prosiect	Gwerth Buddsoddi £m	Swm a adenillwyd hyd at fis Medi 2019 £m	Ennill/(Colled) Net hyd yma £m	Gwariant Cymru hyd yma £m
O dan Reolaeth Pinewood				
Take Down	3.144	1.090	(2.054)	1.089
Their Finest	2.000	2.050	0.050	1.618
The Collection	1.750[1]	0.235	(1.515)	5.187
Show Dogs	1.566[2]	0	(1.566)	4.338
Journey's End	0.850	0.631	(0.219)	0.903
Don't Knock Twice[3]	0.630	0.609	(0.021)	0.641
Minotaur	0.026	0	(0.026)	Dd/G[4]
Lionel the First	0.025	0	(0.025)	Dd/G[5]
Cyfanswm	**9.991**	**4.615**	**(5.376)**	**13.776**
O dan Reolaeth Llywodraeth Cymru				
Trampires[6]	2.000	0	(2.000)	1.621
Eternal Beauty	1.050	0.364	(0.686)	1.255
Bang	0.350	0	(0.350)	2.562
Tiny Rebel	0.318	0	(0.318)	0.260
Goose Green	0.025	0	(0.025)	Dd/G[7]
Almost Never (formerly True Believers)[8]	0.622	0	(0.622)	2.118
Six Minutes To Midnight[9]	0.750	0.075	(0.675)	3.520
Cyfanswm	**5.115**	**0.439**	**(4.676)**	**11.336**
Cyfanswm Cyffredinol	**15.106**	**5.054**	**(10.052)**	**25.112**

[1] Mae'r gwerth buddsoddi yn cynnwys £600,000 o gyllid grant gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[2] Mae'r gwerth buddsoddi yn cynnwys £362,000 o gyllid grant gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

[3] Derbyniodd Don't Knock Twice hefyd gyllid grant o £75,000 o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru.

[4] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad o wariant yng Nghymru

[5] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad o wariant yng Nghymru

[6] Derbyniodd Trampires hefyd gyllid grant o £652,572 o dan gynllun Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

[7] Nid yw cyllid datblygu yn cynnwys ymrwymiad o wariant yng Nghymru

[8] Y cynhyrchiad yn mynd rhagddo neu newydd ei gwblhau.

[9] Y cynhyrchiad yn mynd rhagddo neu newydd ei gwblhau.

Atodiad C

BUDDSODDIAD CRONFA SGRIN CYMRU

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV*)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2012/13	Tonto Films and Television Ltd	Da Vinci's Demons Cyfres 1	0.495	3.823
2012/13	Urban Myth Films	Atlantis Cyfres 1	0.250	4.026
2012/13	Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies)	Boj & Buddies	0.200	1.003
2012/13	Fiction Factory (Hinterland Films Ltd)	Hinterland/y Gwyll Cyfres 1	0.215	3.691
2012/13	Tonto Films and Television Ltd (DVDS2)	Da Vinci's Demons Cyfres 2	0.990	15.000
2013/14	Avanti Media Group	Wonder World	0.127	0.763
2013/14	Urban Myth Films	Atlantis Cyfres 2	0.250	4.026
2013/14	Lime Pictures Limited	Rocket's Island	0.143	0.966
2013/14	Mirror Productions	Petroleum Spirit	0.051	0.358
2013/14	Modern Television	A Poet In New York	0.053	0.855
2013/14	Adastra Creative a Shrinking Cap Productions Ltd	Grandpa in my pocket	0.129	1.612
2013/14	Three Stones Media (Cwmni Rastamouse)	Rastamouse Cyfres 4	0.145	0.885
2013/14	Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd)	The Drake Equation	0.740	5.208
2014/15	Lime Pictures Limited	Rocket's Island Cyfres 4	0.070	0.700
2013/14	Lupus Films	Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest	0.550	3.034
2013/14	Green Bay Media Ltd	Castle Builders	0.045	0.320
2013/14	YJB Films (From a Jack to a King Ltd)	From a Jack to a King	0.100	1.229
2013/14	Hartswood Television Ltd	Lady Chatterleys Lover	0.125	0.813
2014/15	Gritty Realism Productions Ltd	Heart of Darkness	0.150	1.794
2014/15	TCFTV UK Productions	The Bastard Executioner	2.500	10.000
2014/15	Cwmni Da Cyf	Country Fair	0.125	1.019
2014/15	Animortal Studio (Trampires Ltd)	Trampires	0.674	6.738
2014/15	Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd)	Decline and Fall	0.100	1.800
2014/15	RF Movie Productions Ltd	Robin Friday - The Movie	0.200	1.950
2014/15	Touchpaper Television Ltd	Coming up	0.080	0.809
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd)	Hinterland/Y Gwyll 2	0.304	5.300
2014/15	Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd)	Hinterland/Y Gwyll 3	0.250	4.210
2015/16	Bad Wolf Ltd	Bad Wolf Productions	9.000	133.000
2015/16	Hartswood Films (Sherlock TV Ltd)	Sherlock Cyfres 4	0.240	2.409
2015/16	Heel Stone Pictures Ltd	Crossing the Border	0.202	2.519

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV*)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2015/16	Ninth Floor UK Productions Limited	Will Season 1	1.500	18.761
2015/16	Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14)	The Collection	0.600	5.500
2015/16	Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd)	Don't Knock Twice	0.075	0.630
2015/16	Vertigo Television Ltd	Britannia VFX	1.100	11.149
2016/17	Beakus Ltd	Toggle Top	0.076	0.944
2016/17	Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd)	Luo Bao Bai	0.225	3.183
2016/17	Riverstone Pictures (Showdogs Ltd)	Showdogs	0.362	4.737
2016/17	Vox Pictures (Keeping Faith Ltd)	Keeping Faith/Un Bore Mercher	0.328	4.250
2016/17	Green Bay Media	Mountains and Life	0.030	0.540
2016/17	New Pictures (Requiem Productions Ltd)	Requiem	0.400	5.016
2016/17	Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd)	Apostle	0.385	5.767
2017/18	World Productions (BTK 2016 Ltd)	Born to Kill	0.200	2.500
2017/18	The Forge Entertainment Ltd	Kiri	0.200	2.382
2017/18	Coracle Pictures Limited (Denmark)	Denmark	0.085	1.383
2017/18	Rondo Media Cyf	The Wall	0.045	0.363
2017/18	Touchpaper Television Ltd	4Stories	0.040	0.631
2017/18	Illuminated Productions Ltd	The Rubbish World of Dave Spud	0.090	0.906
2018/19	Eleven Film Ltd	Schooled	0.485	3.879
2018/19	Boom Cymru	15 days	0.089	1.074
2018/19	Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited	Dream Horse	0.350	4.384
2018/19	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson Cyfres 4	0.156	1.927
2018/19	Mad as Birds Ltd and Reliance Entertainment Productions Six Ltd	Six Minutes To Midnight	0.400	3.879
2018/19	Keeping Faith/Un Bore Mercher (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures)	Keeping Faith/Un Bore Mercher Cyfres 2	0.300	4.654
2018/19	Hat Trick Productions	Warren	0.109	1.304
2018/19	Monterey Productions Ltd (HBO)	Brooklyn	0.220	2.412
2018/19	GOL Production Ltd (Pulse Films)	Gangs of London	0.350	4.209
2018/19	Iele Productions	Merched Parchus	0.041	0.444
2018/19	Blacklight TV	4Stories cyfres 2	0.102	1.574
2019/20	All That Limit	Brave New World	2.000	20.000
2019/20	Joio	Bang Cyfres 2	0.190	2.300

Blwyddyn Ariannol y Cynnig	Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV*)	Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrin Cymru)	Gwerth y Cynnig £m	Gwariant a Ragwelir £m
2019/20	JJ Productions Ltd (Short Form Film)	Jamie Johnson Cyfres 5	0.060	1.827
CYFANSWM (ac eithrio cynigion a dynnwyd yn ôl)			**27.959**	**333.748**

*Cynnig wedi ei dynnu'n ôl wedyn